PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 12 IONAWR 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Jenkins(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Carter, Gibson, Philippa Hill-John, Lent, Lister, Mackie a/ac McGarry |

45 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Ahmed.
Roedd y Cynghorydd Lister wedi dweud y byddai'n hwyr yn ymuno â'r cyfarfod oherwydd ymrwymiadau gwaith.

46 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi'u derbyn.

47 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2021 yn gofnod cywir.

48 : ATAL TROSEDDAU TREISGAR DIFRIFOL YNG NGHAERDYDD

Croesawodd y Cadeirydd:

Ar gyfer panel y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Alun Michael a'r Cynghorydd Lynda Thorne sy'n Gyd-gadeiryddion y Bwrdd Arweinyddiaeth Diogelwch Cymunedol, a'r Prif Uwch-arolygydd Wendy Gunney, Cyd-gadeirydd y Grŵp Cyflawni Diogelwch Cymunedol.

O Heddlu De Cymru, yr Uwch-arolygydd Tim Morgan.

O'r Uned Atal Trais, y Dirprwy Gyfarwyddwr Daniel Jones

A'r Swyddogion, Sian Sanders - Rheolwr Gweithredol Diogelwch Cymunedol, Cydlyniant ac Ymgysylltu a Jenny Rogers, Rheolwr Diogelwch Cymunedol.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu fel Cyd-gadeirydd y Bwrdd Arweinyddiaeth Diogelwch Cymunedol a'r Cynghorydd Thorne, fel y Cyd-gadeirydd arall i wneud datganiadau.

Rhoddwyd cyflwyniad ar y cyd-destun lleol i'r Aelodau.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Uwch-arolygydd Tim Morgan i amlinellu ei gyflwyniad ac ar ôl hynny gofynnwyd i'r Aelodau wneud unrhyw sylwadau neu ofyn unrhyw gwestiynau.

Dechreuodd y Cadeirydd sesiwn holi ac ateb i drafod effaith troseddau treisgar difrifol a chroesawodd:

- Charlotte Singleton, Rheolwr Canolbwyntio ar Ddioddefwyr Cymorth i Ddioddefwyr;
- Bernie Bowen Thomson, Prif Weithredwr Cymru Ddiogelach a;
- Simon Borja, Cyfarwyddwr Datblygu Prosiectau Cymru Ddiogelach.

Gwahoddodd y Cadeirydd dystion i wneud datganiadau agoriadol ac ar ôl hynny gofynnwyd i'r Aelodau wneud unrhyw sylwadau neu ofyn unrhyw gwestiynau.

Diffiniadau ac Effaith Troseddau Treisgar

Oherwydd natur eang troseddau a ddosberthir fel troseddau treisgar, mynegodd yr Aelodau bryderon y byddai hyn yn sicr yn arwain at alw sylweddol a phwysau gormodol i gyrff cyfrifol. A allai, yn ei dro, effeithio ar eu gallu i gyflawni cyfrifoldebau craidd yn effeithiol, ac, yn fwyaf nodedig, amharu ar ganlyniadau. Yn ogystal â chwmpas y troseddau a ddosberthir fel troseddau treisgar, gall rhai troseddau yn y categori hwn, a allai fod o'r natur fwy isel, gynhyrchu lefelau uchel o ddiddordeb cyhoeddus. O ganlyniad, gallai hyn eto, gyflwyno pwysau a galw dilynol i gyrff cyfrifol ac o bosibl arwain at gam-ddyrannu adnoddau. Yn unol â hyn, ystyriodd yr Aelodau sut mae'r Bartneriaeth yn rheoli troseddau lefel isel o bosibl er mwyn sicrhau nad ydynt yn effeithio ar adnoddau a chyfrifoldebau craidd.

Nododd yr Aelodau fod tystion yn cydnabod yr her hon, a bod yr her yn cael ei rheoli drwy drefniant gweithio cyfunol a chyson rhwng yr holl gyrff cyfrifol. Yn ogystal, clywodd yr Aelodau sut y mae'r gwaith partneriaeth cyson hwn hefyd yn cael ei gefnogi gan y mewnwelediad a gynigir gan yr Uned Atal Trais, y mae ei gwaith yn helpu i sicrhau bod y ffocws a'r adnoddau cywir yn cael eu defnyddio gan gyrff perthnasol. Er bod y gwaith partneriaeth sydd ar waith i reoli'r her hon i'w groesawu, roedd yr Aelodau am bwysleisio pwysigrwydd cadw mewn cof yr her hon er mwyn sicrhau bod canlyniadau cadarn ac effeithiol yn cael eu cyflawni'n barhaus, a bod adnoddau cyrff cyfrifol yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae rhoi cymorth hygyrch o ansawdd uchel i ddioddefwyr yn hanfodol, ac ystyriodd yr Aelodau a oedd ffordd o ganfod data am unigolion sydd wedi bod drwy'r system cyfiawnder troseddol ond nad ydynt wedi ceisio cymorth. Er bod yr Aelodau'n cydnabod y gallai hyn fod yn anodd ei fesur, nododd a chroesawodd yr Aelodau y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod ynglŷn â'r dull y mae sefydliadau'n ei ddefnyddio i nodi ac annog unigolion i ddefnyddio gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau o'r farn bod hwn yn rhywbeth arbennig o ddefnyddiol i’w ystyried er mwyn deall tueddiadau sylfaenol a rhoi syniad cychwynnol o resymau posibl unigolion dros beidio â cheisio cymorth. Felly, anogodd yr Aelodau'r Uned Atal Trais yn gryf i ystyried hyn ymhellach. Yn ogystal, roedd yr Aelodau'n falch o nodi sefydliadau sy'n cynnig cymorth i unigolion, gan fynd ati'n rhagweithiol i geisio eu lefelau boddhad o ran sut yr ymdriniwyd â'u hachos, sydd wedyn yn cael ei rannu â chyrff perthnasol i lywio gwaith yn y dyfodol.

Strwythur Partneriaeth

O ran strwythur y Bartneriaeth, cyfeiriwyd at y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y gellir ei ystyried yn gymhleth ac yn anodd i’r cyhoedd ei ddeall. Yn ogystal, gellid dadlau hefyd bod cymhlethdod o fewn strwythurau o'r fath yn dosbarthu’n ddiofal atebolrwydd a chyfrifoldeb i'r fath raddau fel y crëir dryswch ynghylch pwy sy'n gyfrifol am beth. Nododd yr Aelodau fod partneriaid o fewn y strwythur yn teimlo bod y trefniadau presennol yn effeithiol. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau am bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod y cyhoedd yn gallu deall gweithrediadau a gwaith y

Bartneriaeth, a phwysigrwydd yr angen i’r Bartneriaeth barhau’n hygyrch ac yn dryloyw. Ystyriodd yr Aelodau hefyd sut y caiff gwaith y Bartneriaeth ei werthuso a nodwyd y bydd gwerthusiad o'i waith yn cael ei ddefnyddio i lywio'r Strategaeth Atal Trais sydd ar ddod. Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd nodi’n glir drefniadau adrodd y Bartneriaeth, a manylion ei phroses werthuso yn y Strategaeth Atal Trais sydd ar ddod er mwyn bod yn dryloyw. Yn ogystal, croesawodd yr Aelodau y gydnabyddiaeth a roddwyd yn y cyfarfod o ran ystyried y posibilrwydd o adnewyddu strwythur y Bartneriaeth er mwyn sicrhau nad oes gorgyffwrdd na ddyblygu.

Gwneud penderfyniadau

O ran gwneud penderfyniadau, ystyriodd yr Aelodau sut nad yw penderfyniadau o ran mynd i'r afael â throseddau treisgar bob amser yn cael eu llywio gan ddata, ond gallant ddigwydd weithiau mewn ymateb i drosedd unigol a oedd â goblygiadau difrifol, yn enwedig o ran canfyddiad y cyhoedd. Yn ystod y drafodaeth, roedd yn ddiddorol nodi bod penderfyniadau neu ymatebion sydd wedi'u gwneud ar gefn digwyddiad penodol wedi arwain at gynnydd mewn adroddiadau a data dilynol.

Gwaith Atal

Roedd yr Aelodau o'r farn bod gwaith rhaglenni ymyrraeth gynnar y Bartneriaeth y manylwyd arnynt yn y cyfarfod yn ddiddorol. Sicrhawyd yr Aelodau hefyd fod Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru, sy'n ymgysylltu â thros 90% o’r ysgolion, yn cynnwys pynciau fel cario a defnyddio arfau mewn ymgais i atal gweithgarwch o'r fath rhag digwydd. Fodd bynnag, nid oedd llawer o'r cynlluniau a'r mentrau y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfod, ac ym mhapurau'r cyfarfod, yn gyfarwydd i'r Aelodau. Mae hyn yn dangos yn glir bod angen i'r Bartneriaeth gryfhau ei chyfathrebu ar y gwasanaethau sydd ar gael, a sut y gellir cael gafael ar wasanaethau o'r fath. Mae'r Aelodau o'r farn bod yn rhaid i gyfathrebu uniongyrchol cryfach ag Aelodau Etholedig a'r cyhoedd yn ehangach fod yn elfen allweddol o'r Strategaeth Atal Trais sydd ar ddod. Yn ogystal, rhaid gwella'r cyfathrebu rhwng Aelodau Etholedig a'r heddlu hefyd er budd y ddwy ochr. O'r herwydd, mae'r Aelodau'n argymell bod prosesau symlach yn cael eu cyflwyno i sicrhau cyfathrebu rheolaidd ac uniongyrchol rhwng Aelodau Etholedig a'u harolygwyr plismona lleol. Ynghyd â rhoi gwybodaeth am achosion difrifol, rhaid i'r cyfathrebu hwn hefyd gynnwys diweddariadau cyffredinol, mentrau wedi'u cynllunio a newidiadau staff. Yn ystod y cyfarfod, ystyriodd yr Aelodau hefyd y gydberthynas bosibl rhwng dioddefwyr troseddau treisgar a theuluoedd yn chwalu ac, fel y gwnaethant o'r blaen gyda Llywodraeth Cymru, roedd yr Aelodau am ailadrodd yr angen i sicrhau bod y cysyniad o 'Deuluoedd Gwydn' yn cael ei gryfhau o fewn corff gwaith 'Cymunedau Cryf' Llywodraeth Cymru.

Gweithrediadau'r Heddlu

Ystyriodd yr Aelodau fod y wybodaeth a roddwyd yn y cyfarfod ar yr hyn y gellir ei gyflawni drwy weithrediadau'r heddlu yn nodedig, ac roedd yn ddiddorol iddynt ystyried sut y gwneir penderfyniadau ynghylch gweithrediadau'r heddlu. Croesawodd yr Aelodau fod sganio'r gorwel yn cael ei ddefnyddio'n gyson i lywio gweithrediadau, gyda materion posibl, materion arfaethedig neu faterion sy'n dod i'r amlwg hefyd yn cael eu huwchgyfeirio drwy fframwaith y Bartneriaeth. Yn ogystal â hyn, nododd yr Aelodau fod y penderfyniadau ynghylch ble y defnyddir gweithrediadau yn tueddu i gael eu harwain gan ddeallusrwydd a galw. Er bod cyflawniadau gweithrediadau'r heddlu yn galonogol, pan fydd gweithrediad yr heddlu, neu ffocws dwysach o fewn

ardal benodol yn dod i ben, gall y materion sylfaenol a'r goblygiadau dilynol aros yn y gymuned. Er bod cyfyngiadau o ran adnoddau'n cael eu cydnabod, roedd yr Aelodau am ailadrodd ei bod yn bwysig nad yw cyrff cyfrifol yn atal gweithrediadau/ffocws ar unwaith. Gan fod hyn yn rhoi'r argraff i drigolion nad yw mater penodol yn flaenoriaeth, nac yn cael sylw mwyach. Mae'n hanfodol bod trigolion yn deall bod mynd i'r afael ag achos mater yn parhau'n flaenoriaeth a rhaid ailadrodd a dangos hyn yn glir. O fewn y drafodaeth roedd yn ddiddorol nodi bod ymchwil Prifysgol wedi dangos y gall "patrolau 15 munud" leihau trais difrifol 14%, ac mae hyn yn cael ei dreialu ar draws y ddinas ar hyn o bryd.

Dioddefwyr Gwrywaidd a Cham-drin domestig

Ym mhapurau'r cyfarfod, hysbyswyd yr Aelodau mai dynion sydd fwyaf tebygol o ddioddef troseddau treisgar yng Nghymru, ac ar y sail hon, ystyriodd yr Aelodau pam nad yw 'trais yn erbyn dynion' yn cael ei nodi fel maes blaenoriaeth i'r Bartneriaeth. O fewn yr ymateb, nododd yr Aelodau yr eir i'r afael â'r gwaith hwn yn is-grwpiau'r Bartneriaeth fel Economi'r Nos neu Drais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol. Er y nodwyd hyn, roedd yr Aelodau am ailadrodd ei bod yn bwysig bod y Bartneriaeth yn gweithio i sicrhau nad oes unrhyw wahaniaeth rhwng y gydnabyddiaeth, y cymorth na'r gwasanaethau sydd ar gael i ddioddefwyr gwrywaidd neu fenywaidd ac y dangosir yn barhaus fod gwasanaethau ar gyfer y ddau ryw yr un mor bwysig. Roedd yr Aelodau'n ymwybodol bod gwasanaeth rhanbarthol i ddioddefwyr gwrywaidd i'w lansio erbyn mis Gorffennaf 2021 yn rhan o Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018-2023 Caerdydd a Bro Morgannwg. Fodd bynnag, yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref 2021, hysbyswyd yr Aelodau gan weithrediaeth y Cyngor fod y broses o lansio'r gwasanaeth hwn wedi'i gohirio yn anffodus. Mae cam-drin domestig yn drosedd ddifrifol a gofynnodd yr Aelodau i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol pam mae'r gwasanaeth hwn wedi'i ohirio, a gofynnon nhw hefyd am y dyddiad lansio disgwyliedig.

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen.

## 49 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi'u derbyn.

## 50 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - DYDD LLUN 21 CHWEFROR 2022, 1:30PM

Daeth y cyfarfod i ben am 7.25 pm